COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU A'R PRIF GWNSTABL

HEDDLU DE CYMRU

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON 2020-21

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON

CYFLWYNIAD

Mae Datganiad Cryno o Gyfrifon 2020-21 yn nodi prif weithgarwch refeniw a chyfalaf y flwyddyn ar gyfer Heddlu De Cymru. Nid yw'r gwariant refeniw yn cynnwys trafodiadau penodol sy'n ymwneud â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), er mwyn symleiddio'r broses o gyflwyno'r cyfrifon. Nid yw'r trafodiadau hyn yn effeithio ar y trosglwyddiad i Gronfa'r Heddlu.

Y CYFRIF REFENIW

Cymeradwywyd cyllideb refeniw net o £308.6m ar gyfer 2020-21 ym mis Chwefror 2020 i ariannu ymrwymiadau presennol o ran gwariant a blaenoriaethau'r Heddlu a nodwyd. At hynny, daeth £0.3m arall o wariant cyfalaf a ariannwyd drwy grant gan y Llywodraeth â chyfanswm y gyllideb i £308.9m.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Balans Cronfa'r Heddlu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £10.1m, sydd islaw'r lefel darged, sef £11.9m (3% o'r Gwariant Refeniw Gros). Fodd bynnag, roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o £0.176m o gymharu â 2019-20, o ganlyniad i danwariant bach ar ddiwedd y flwyddyn. Cedwir £25.8m mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddibenion refeniw a chyfalaf penodol.

CYLLID CYFALAF A BENTHYCA

Y gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod oedd £31.3m a chafodd ei ariannu drwy fenthyciadau, cyfraniadau refeniw, derbyniadau cyfalaf a grantiau penodol. Gwariant cyfalaf yw arian a gaiff ei wario gan Heddlu De Cymru er mwyn prynu, uwchraddio a gwella asedau megis eiddo, cerbydau a TGCh. Y gwahaniaeth rhyngddo a gwariant refeniw yw bod Heddlu De Cymru yn cael y budd o wariant cyfalaf ar asedau dros gyfnod hwy o amser.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyhoeddir Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r amgylchedd rheoli mewnol, yn gwneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd ac yn nodi materion ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar 'Delivering Good Governance' i Gyrff Plismona gan CIPFA ym mis Gorffennaf 2016, sydd wedi'u hategu gan ganllawiau CIPFA ar 'Application of the Good Governance Framework 2020-21', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, mewn ymateb i effaith barhaus pandemig y Coronafeirws ar drefniadau llywodraethu. Mae'r Cyd-Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i lunio yn unol â'r canllawiau hyn.

Gellir dod o hyd i'r Datganiad o Gyfrifon cyhoeddedig llawn a barn Archwilydd Cyffredinol Archwilio Cymru ar y gwefannau canlynol:-

- Comisynydd yr Heddlu a Throseddu

  Cyllid (southwalescommissioner.org.uk)

- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

  Datganiad Cyfrifon Blynyddol | Heddlu De Cymru (south-wales.police.uk)

AR BETH Y GWARIWYD YR ARIAN YN 2020-21

GWARIANT REFENIW



Dengys yr uchod fod cyflogau a chostau cysylltiedig ar gyfer Swyddogion a Staff yr Heddlu (£279.74m) yn cyfrif am 75% o'r gwariant gros, sef £373.9m. Mae enghreifftiau o wariant o fewn y £57.18m ar gyfer Cyflenwadau a Gwasanaethau a chostau eraill yn cynnwys Cyfathrebu a Chyfrifiadura (£10.6m), Taliadau i Heddluoedd Eraill (£7.7m), Taliadau Eraill i Drydydd Partïon (15.1m) a Chostau Ymchwiliol a Gweithredol (£5.8m). Hefyd, gwariwyd £19.7m i dalu costau cyllid cyfalaf sy'n cynnwys llog a dalwyd ar fenthyciadau, swm a neilltuwyd i ad-dalu'r prif swm a chyfraniad refeniw i gyllid cyfalaf.

Dangosir cost plismona yn Ne Cymru a'r cyllid ar gyfer 2021-21 a'r flwyddyn flaenorol isod (a gyflawnir at ddibenion monitro):

	2020-21 £m	2019-20 £m
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu	154.2	146.7
Cyflogau a Phensiynau Staff yr Heddlu	61.1	59.4
Cyllidebau Datganoledig	9.5	10.5
Cyllidebau'r Heddlu / Cyllidebau wrth Gefn	28.0	23.6
Cyllidebau Canoledig	12.8	13.0
Cyllidebau a Ariennir yn Allanol	26.5	22.6
Cyllidebau Cydweithredol	43.8	41.9
Cyllidebau Canolog	25.1	20.0
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	12.9	14.3
Gwariant Gros	**373.9**	**352.0**
Llai Grantiau ac Incwm	(65.0)	(63.8)
Gwariant Net	**308.9**	**288.2**

Dengys y tabl isod sut yr ariannwyd Heddlu De Cymru yn y flwyddyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

	2020-21 £m	2019-20 £m
Grantiau Cyfalaf gan y Llywodraeth	(0.3)	(1.0)
Incwm o'r Dreth Gyngor	(135.9)	(126.5)
Incwm o Ardrethi Annomestig (Llywodraeth Cymru)	(21.9)	(22.4)
Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru)	(53.9)	(53.4)
Grant yr Heddlu (y Swyddfa Gartref)	(96.9)	(84.9)
Cyfanswm Cyllid	**(308.9)**	**(288.2)**

AR BETH Y GWARIWYD YR ARIAN YN 2020-21

GWARIANT CYFALAF



Ariannwyd y gwariant cyfalaf o'r ffynonellau canlynol:

Ffynonellau Cyllid	£m
Grant gan y Swyddfa Gartref	0.27
Cyfraniadau Refeniw	10.42
Grantiau a Chyfraniadau Eraill	0.32
Defnyddio Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn	5.72
Derbyniadau Cyfalaf	0.23
Benthyca	14.29
Cyfanswm Cyllid	**31.24**

Mae'r gwariant cyfalaf yn cynnwys rhagor o gynnydd tuag at gwblhau Canolfan Dysgu a Datblygu'r Heddlu ym Mhencadlys yr Heddlu, rhaglen adnewyddu cerbydau a galluogrwydd symudol ychwanegol ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni 'uchelgais y Person Cywir, yn y Lle Cywir, ar yr Adeg Gywir'.

Y FANTOLEN

Mae'r tabl isod yn crynhoi mantolen yr hyn y mae Heddlu De Cymru yn 'berchen arno' a'r hyn 'sy'n ddyledus ganddo' i eraill:

	2020-21 £m	2019-20 m
Asedau Diriaethol (Eiddo, Cerbydau, Systemau Cyfrifiadurol a Chyfarpar)	172.4	149.6
Asedau Anniriaethol (Meddalwedd Gyfrifiadurol)	1.7	1.5
Stociau	1.4	1.3
Dyledwyr (Arian sy'n Ddyledus i Heddlu De Cymru)	36.2	39.7
Credydwyr (Arian sy'n Ddyledus gan Heddlu De Cymru)	(34.9)	(27.4)
Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	32.0	27.2
Darpariaethau	(3.8)	(4.7)
Benthyciadau Hirdymor	(23.8)	(25.0)
Llai Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy	(145.3)	(136.7)
Cyfanswm yr Asedau llai Rhwymedigaethau	**35.9**	**25.5**
Ariennir gan:		
Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy	(35.9)	(25.5)
	(35.9)	**(25.5)**

Mae Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy yn dal addasiadau technegol i'r cyfrifon, gan gynnwys addasiadau a wneir i asedau ar gyfer dibrisiant ac ailbrisiadau, ac nid ydynt yn gronfeydd wrth gefn a gefnogir gan arian parod.

BUDDSODDI A BENTHYCA

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan Heddlu De Cymru werth £32m o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod wedi'i ddal naill ai mewn Cyfrifon Galw neu Gronfeydd Marchnadoedd Ariannol.

Ar yr un dyddiad adrodd, roedd gwerth £25m o fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i'w had-dalu o hyd fel y dangosir isod (ystyrir bod £1.3m yn fenthyciad byrdymor):



Felly, sefyllfa gyffredinol y trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd gwerth £7m o fuddsoddiadau net.

EFFEITHLONRWYDD AC EFFEITHIOLRWYDD

Nid yw cyllid canolog gan y Llywodraeth wedi cynyddu'n unol â chostau cynyddol a gofynion sy'n newid. Mae'r mesurau llym a roddwyd ar waith er mwyn delio â'r heriau ariannol a ddeilliodd o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010, fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Gwerth am Arian y Comisiynydd, ynghyd â rheolaeth ariannol ddarbodus barhaus, wedi sicrhau gwerth £56.2m o arbedion, sef y swm yr oedd angen ei arbed yn sgil y toriadau i grantiau'r heddlu a nodwyd yn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010. Dangosir y meysydd cyllidebol y mae'r arbedion hyn wedi dod ohonynt yn y ffeithlun isod:



Os bydd yr ymrwymiadau presennol o ran gwariant yn parhau i gael eu hariannu ar lefel arian parod gwastad, rhagwelir y bydd angen sicrhau gwerth £13.5m o arbedion refeniw pellach rhwng 2021-22 a 2024-25.

CYFLAWNIADAU'R HEDDLU CYFAN YN 2020-21

Y Sefyllfa Alldro Derfynol

Yr Alldro Refeniw ar gyfer 2020-21 yn erbyn cyllideb refeniw net o £308m oedd tanwariant o £176k. Alldro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020-21 oedd tanwariant o £87k. Cafodd y Datganiad Drafft o Gyfrifon a'r Datganiad Terfynol o Gyfrifon eu llunio a'u cyhoeddi yn unol â'r terfynau amser statudol yng Nghymru. Cafwyd Barn Archwilio ddiamod ar y Cyfrifon.

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Atebwyd 85.6% o alwadau 999 o fewn 10 eiliad, sydd 4.4% islaw'r targed cenedlaethol. Yn gyffredinol, atebwyd 99.0% o alwadau 999. Atebwyd 91.8% o alwadau nad oeddent yn rhai brys.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae Heddlu De Cymru wedi bod yn gweithio i wella hyder dioddefwyr troseddau casineb i roi gwybod am achosion, a chofnodwyd cynnydd o 7.0% yn nifer y troseddau casineb yn 2020-21 gyda 2,119 o droseddau casineb, o gymharu â 1,981 yn 2019-20.

Ansawdd y Gwasanaeth

Cofnodwyd 93.3% o'r troseddau y rhoddwyd gwybod i Heddlu De Cymru amdanynt o fewn 24 awr. Cofnododd Heddlu De Cymru gyfradd canlyniadau cadarnhaol o 22.4% ar gyfer troseddu'n gyffredinol yn 2020-21, o gymharu â 19.4% yn 2019-20. Cofnododd Heddlu De Cymru leihad o 23.2% yn nifer y bwrgleriaethau yn 2020-21 gyda 4,680 o droseddau, o gymharu â 6,091 yn 2019-20.

Troseddau a Gofnodwyd

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21, bu lleihad o 13.7% yn nifer y troseddau a gofnodwyd o gymharu â blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd nifer y troseddau a gofnodwyd wedi lleihau o fwy na 300 y dydd, ar gyfartaledd, ar ddechrau 2019-20 i tua 260 y dydd erbyn diwedd 2020-21.



Dengys y Gyfradd Canlyniadau Cadarnhaol yn ôl grŵp trosedd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn flaenorol leihad yn y mwyafrif o droseddau ac eithrio difrod troseddol, lladrata o fusnesau a bwrgleriaeth yn y gymuned, twyll a ffugio a dwyn o gerbydau modur: